

Datganiad Diogelu Arian Cleientiaid yr Asiant

Os yw Asiant sy'n gwneud cais am drwydded yn nodi nad yw'n trafod unrhyw arian cleient fel rhan o'i waith fel Asiant yng Nghymru, bydd Rhentu Doeth Cymru yn derbyn hyn ac felly ni fydd gofyn i'r asiant fod yn rhan o gynllun Diogelu Arian Cleientiaid (CMP), ond dim ond os caiff y ffurflen ganlynol ei llofnodi a'i chyflwyno fel tystiolaeth gyda'r cais.

Mae arian cleientiaid yn cynnwys arian rhent, blaendaliadau neu gronfeydd eraill (boed hynny ar ffurf arian parod, siec, drafft neu drosglwyddiad electronig) y mae Asiant yn ei gadw neu'n ei dderbyn ar gyfer neu gan **gleient** ac nad yw'n daladwy'n syth ond yn daladwy ar alw i'r Asiant ar gyfer ei gyfrif ei hun.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gofyn i asiantau fod â chynllun diogelu arian cleientiaid pan fyddant yn gwneud gwaith gosod a rheoli ar ran landlordiaid nad ydynt yn aelodau o'u teulu agos. Cyflwynir tystiolaeth o gynllun diogelu arian cleientiaid gan yr ymgeisydd naill ai fel rhan o'r cais neu ei hychwanegu fel amod i ganiatáu trwydded a bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth bod hynny yn ei le o fewn 6 wythnos wedi i'r drwydded gael ei chaniatáu. Mae amodau trwyddedau hefyd yn gofyn bod cynllun diogelu arian cleientiaid yn weithredol trwy gydol cyfnod y drwydded (pan drafodir arian cleientiaid).

Llofnodwch, dyddiwch a dychwelwch y datganiad amgaeedig. Gallwch naill ai ei uwchlwytho'n syth i'ch cyfrif ar-lein dan adran "Proffil yr Asiant" (pan ofynnir am dystiolaeth o gynllun diogelu arian cleientiaid) neu cewch ei ddychwelyd i ni trwy e-bost i rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk. Ni ystyrir bod eich cais wedi ei gwblhau hyd nes y dychwelir y datganiad hwn.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am Rhentu Doeth Cymru, y broses drwyddedu neu'r datganiad hwn, peidiwch oedi cyn cysylltu gyda ni ar 03000 133344

DATGANIAD CAIS TRWYDDED ASIANT

Nid wyf yn dal nac yn derbyn unrhyw arian cleient ar hyn o bryd.

Rwyf/rydym yn datgan nad wyf/ydym yn trafod arian ar ran unrhyw gleient ar hyn o bryd ac rwyf/rydym yn deall bod yn rhaid i mi/ni gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod gennyf/gennym gynllun diogelu arian cleientiaid i Rhentu Doeth Cymru o fewn 6 wythnos wedi i ni gychwyn dal neu dderbyn unrhyw arian cleient. Rwyf/rydym yn deall y gallai peidio â gwneud hynny arwain at ddiddymu'r drwydded asiant.

Rwyf/rydym yn datgan bod yr wybodaeth sydd yn y datganiad hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth. Rwyf/rydym yn deall fy mod/ein bod yn troseddu os ydwyf/ydym yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'l swyddogaethau o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac yr ydwyf/ydym yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os wyf/ydym yn ddiotal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

Enw'r Sawl sy'n Gwneud Cais am Drwydded Asiant:	
Cyfeiriad Gohebu'r Asiant	
Rhif ffôn yr Asiant:	
Cyfeiriad e-bost yr Asiant:	
Rhif Cyfeirnod yr Asiant	#A2-

Printiwch eich Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Dylai'r ymgeisydd gwblhau'r ffurflen hon neu, os delir atwrneiaeth, y person a enwebwyd fel y twrnai. Mae angen llofnod er mwyn i'r cais am drwydded asiant fynd rhagddo.